<p>56. Cynllun amddiffyn rhag llifogydd Afon Bach:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cytunodd yr ystafell nad oedd yn effeithiol a'i fod wedi bod yn fuddsoddiad gwael. 	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn am gynnwys hyn yn yr ymchwiliadau sy'n cael eu cynnal gan CNC a CBSC, ac fel rhan o'r adolygiad 	<ul style="list-style-type: none"> Mae CNC wedi ein hysbysu bod cynllun rheoli perygl llifogydd ar gyfer Afon Bach wedi'i gynllunio a'i weithredu gan CBSC. Nid yw'n gynllun ar gyfer y prif afonydd a byddai unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad neu unrhyw fater arall yn cael eu hateb gan yr Awdurdod Lleol.

<ul style="list-style-type: none"> Dyweddodd Cyng o CBSC ar y teledu fod y fynedfa i'r cwlferd wedi'i chlirio cyn storm Ciara, a bod tystiolaeth ffotograffig i'w chael. 	<p>annibynnol ar gyfer lliniaru llifogydd y gelwir amdano.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gofyn am y dystiolaeth ffotograffig. 	<p>Mae CBSC yn ein hysbysu o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd manyleb y cynllun yn cael ei gynnwys yn yr Adran 19 ddiweddaraf sy'n cael ei chwblhau gan ymgynghorydd annibynnol ar hyn o bryd. Cafodd y cwlfertau eu clirio ddydd Gwener 8 Chwefror - cefais ffotograff yn dangos bod y sgrin brigau yn glir ar y bore dydd Sadwrn cyn Storm Ciara Roedd y cynllun yn effeithiol o ran lleihau llifogydd yn Llanrwst. Digwyddodd y llifogydd yn yr ardal hon i raddau helaeth oherwydd rhwystr yn uwch i fyny'r afon. Cafodd y rhwystr hwn ei dynnu oddi yno ac adferwyd yr ardal i fyny'r afon ar y cyfle cyntaf gan atal rhagor o lifogydd yn ystod y stormydd dilynol.
<p>57. Network Rail:</p> <ul style="list-style-type: none"> Pryder nad yw eu hasesiadau perygl llifogydd wedi'u seilio ar gynlluniau sy'n dangos i ble mae dŵr llifogydd yn cael ei bwmpio. 	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn i'r awdurdodau perthnasol ddarparu cynllun clir i Network Rail yn dangos ble y caiff y pypiau eu gosod yn Llanrwst yn ystod llifogydd, ac i ble y bwriedir pwmpio'r dŵr, fel y gall y sefydliad gael asesiadau risg cryfach. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae Network Rail wedi ein hysbysu mai'r unig gyfarpar pwmpio yn y lleoliad hwn yw pwmp lled-barhaol sy'n symud dŵr i'r ddyfrbont ger Stryd y Capel.
<p>58. Tai:</p> <ul style="list-style-type: none"> Pryder bod disgwyl i rai trigolion symud i ardal Conwy/Llandudno . 	<ul style="list-style-type: none"> Holi'r cymdeithasau tai os ydynt wedi ceisio symud unrhyw drigolion allan o Lanrwst a'r cyffiniau. Gofyn am ymdrech 	<ul style="list-style-type: none"> Mae Cymdeithas Tai Gogledd Cymru wedi ein hysbysu eu bod mewn cysylltiad rheolaidd ag Adran Rheoli Tai Grŵp Cynefin a'u bod wedi ymrwymo i gynnig unrhyw eiddo gwag iddynt eu defnyddio fel llety dros dro er mwyn cadw teuluoedd yr effeithiwyd arnynt yn ardal Llanrwst. Mae Grŵp Cynefin wedi ein hysbysu mai'r lleoliad pellaf yr oedd yn rhaid

	<p>sylweddol i letya teuluoedd sy'n dymuno aros yn Llanrwst, neu'n agos i'r dref.</p>	<p>iddynt leoli tenantiaid dros dro (gyda'u cytundeb) oedd Llysfaen, Cyffordd Llandudno (y ddau o eiddo Grŵp Cynefin) a Phentrefoelas (trefniant preifat). Cafodd gweddill y teuluoedd eu hadleoli o fewn cwmpas o 4 milltir i'r dref. Roedd ganddynt heriau o ran dod o hyd i lety addas yn Llanrwst (oherwydd nad oeddent ar gael i'w gosod, a rhai ddim yn diwallu anghenion tenantiaid). Yn anffodus, oherwydd Covid-19, cafodd y gwaith adfer llifogydd ar y tai yr effeithiwyd arnynt ei ohirio dros dro.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Cartrefi Conwy wedi cadarnhau bod ardal o ddewis y tenant yn elfen bwysig o'u dull o ddyrannu. Fodd bynnag, nid oedd ganddynt unrhyw denantiaid yr effeithiwyd arnynt gan y llifogydd diweddar yn Llanrwst felly ni fyddent wedi gwneud cais i symud.
<p>59. Drysau llifogydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwyd a ellid darparu'r rhain yn rhad ac am ddim. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn i Lywodraeth Cymru a CBSC. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae CBSC wedi ein hysbysu nad oes ganddynt unrhyw adnoddau i ddarparu eiddo preifat sy'n amddiffyn rhag llifogydd. Fodd bynnag, bydd cais yn cael ei wneud i Lywodraeth Cymru i ofyn am gymorth ariannol i amddiffyn eiddo rhag llifogydd mewn ffordd a dargedir.
<p>60. CNC:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynegwyd pryderon ynghylch absenoldeb y sefydliad. • Gwnaed pwynt gan gynghorydd CBSC fod angen i CNC ddod i drafod gan nad yw rhai o'r mesurau bellach yn briodol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Codi pryderon gyda Llywodraeth Cymru am ymateb CNC i lifogydd. • Gofyn i CNC dderbyn bod angen newid mawr, a gweithio gyda phob parti perthnasol, gan gynnwys y gymuned. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae CNC wedi ysgrifennu'r canlynol : <p>“Mewn perthynas yn benodol ag absenoldeb CNC mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Janet Finch Saunders ar 29 Chwefror yn Llanrwst. Anfonwyd ymddiheuriadau at yr AC, ond mae dau brif reswm dros ein habsenoldeb.</p> <p>1. Ar yr adeg, roeddem yn parhau i fod yn y modd rheoli digwyddiad ac yn disgwyl rhagor o rybuddion am lifogydd ac yn ymateb i ganlyniadau Storm Jorge. Roedd pob aelod staff arbenigol naill ai ar alwad neu'n gorffwys cyn yr alwad nesaf. Ein blaenoriaeth ar y pryd oedd sicrhau ein bod yn barod i ymateb i ddigwyddiad.</p> <p>2. Roeddem yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i gyfarfod. Roeddem yn bwriadu siarad â'r gymuned unwaith yr oedd yr ymchwiliad</p>

		<p>cychwynnol wedi'i gwblhau a bod yr wybodaeth am lifogydd, glawiad, lefel afonydd ac ati ar gael i bob un ohonom. O brofiad, mae hyn yn arwain at sgwrs llawer mwy adeiladol.</p> <p>Yn anffodus, o ganlyniad i'r canllawiau Coronafeirws diweddar a'r cyfyngiadau, roedd yn rhaid gohirio'r digwyddiad cyhoeddus a drefnwyd ar gyfer 19 Mawrth am y tro.</p> <p>Pan fydd y sefyllfa gyfredol yn gwella a gwybodaeth iechyd cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cael ei diweddarau, byddwn yn adolygu ein gweithgarwch ac yn hapus i gyfarfod i egluro'r ffordd y mae'r Cynllun Lliniaru Llifogydd yn gweithio i amddiffyn eiddo yn Llanrwst ac yn Nhrefriw".</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae CNC wedi ein hysbysu bod Cynllun Lliniaru Llifogydd Dyffryn Conwy wedi perfformio'n dda yn ystod llifogydd mis Chwefror 2020. Nid oes ganddynt unrhyw adroddiadau o eiddo yn dioddef llifogydd o afon Conwy er eu bod yn cydnabod bod eiddo eraill wedi'u heffeithio gan gyrsiau dŵr eraill ac rydym yn cydymdeimlo â'r rhai sydd wedi'u heffeithio.
<p>61. Busnes:</p> <ul style="list-style-type: none"> Pryder am ddyfodol busnesau yn Llanrwst. Pryder am effaith sylweddol y tair storm ar y sector lletygarwch ym Metws-y-coed a Chapel Curig: mae un busnes wedi cofnodi'r enillion gwaethaf ym mis Chwefror ers argyfwng clwy'r traed a'r genau. 	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn am ryddhad ardrethi i'r holl fusnesau y mae llifogydd yn effeithio yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol arnynt. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae CBSC wedi ein hysbysu y dylai busnesau unigol gysylltu â'r Cyngor mewn perthynas â'r mater hwn oherwydd efallai fod rhyddhad ar gael fesul achos.
<p>62. Tyn-y-coed, Capel Curig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Pryder nad yw Dŵr Cymru'n mynd i'r afael â 	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn i Dŵr Cymru fynd i'r afael â hyn. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae Dŵr Cymru wedi ein hysbysu nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw broblemau llifogydd yn yr eiddo. Fodd bynnag, mae'r cilfan ymhellach i lawr yr afon wedi dioddef llifogydd hanesyddol ger

<p>phroblem yn y fan honno.</p>		<p>maes parcio Bryn Glo, oherwydd gorlwyth hydrologig yn y maes parcio. Maen nhw'n hapus i ystyried y sefyllfa ymhellach os oes mwy o wybodaeth ar gael.</p>
<p>63. Dal dŵr yn y mynyddoedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pryder bod cyfle yn cael ei golli i ddal dŵr yn y mynyddoedd, fel yn y cronfeydd dŵr yng Nghapel Curig, ac uwchben Dolgarrog 	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltu ag awdurdodau perthnasol i geisio cael esboniad o'r hyn y gellid ei gyflawni. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn fwy na bodlon i fod yn rhan o'r mater hwn. • Ar hyn o bryd mae RWE yn cynnal astudiaeth er mwyn deall yn well pa mor ymarferol yw'r cynnig i gynyddu capasiti Eigiau. Gallai hyn yn ei dro gronni mwy o ddŵr yn ystod cyfnodau o law trwm. Mae'r astudiaeth ar y gweill a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau yn gynnar ym mis Awst 2020. Os daw i'r amlwg bod mantais sylweddol i arafu llifogydd yn sgil cael caniatâd i weithredu'r giât siglo yn Eigiau, byddai angen i RWE gysylltu ag OFGEM fel deilydd Tystysgrif Rhwymo i Ynni Adnewyddadwy. • Mae CNC wedi ein hysbysu bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi dechrau gwaith cau ffosydd ar y Migneint yn gynnar yn y 2000au. Yn 2015 dechreuodd CNC brosiect partneriaeth gan weithio ar y cyd gyda'r YG a oedd yn cynyddu graddfa'r brosiect o'r Migneint er mwyn canolbwyntio ar holl ddalgylch Conwy Uchaf i lawr tuag at y cydlifiad ym Metws y Coed. Yn 2018, dechreuodd CNC brosiect 18 mis i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ym Machno, a oedd yn canolbwyntio ar ddalgylch Machno. Yn 2019, cyflwynodd CNC gynnig i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid EnRAW a fydd yn cynyddu graddfa'r dalgylch eto i gynnwys pen uchaf Afon Dyfrdwy (dalgylch Nug), rhannau o Hiraethog ac i lawr i Lanrwst. O'r herwydd, mae'r gwaith o adfer ymhellach y mawnogydd yn cael lle amlwg ar yr agenda, ac rydw i wedi cael fy hysbysu bod 390 cilometr a mwy o ffosydd wedi'u cau drwy osod 40,000 argae, a bod

		<p>hyn yn cynnwys gwaith cau ffosydd yn Nant y Gwryd, rhwng gwesty Pen y Gwryd a Phlas y Brenin.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae CBSC yn awyddus i gydweithio â'r holl randdeiliaid er mwyn ceisio lleihau perygl llifogydd yn yr ardal.
<p>64. Dyfrffosydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniwyd i mi fod llawer o waith diweddar wedi'i wneud ar y dyfrffosydd rhwng Cowlyd a Chapel Curig, ac o ganlyniad, fod dŵr wedi bod yn dod oddi ar y mynyddoedd ac yn mynd i mewn i Gonwy drwy Gapel Curig yn hytrach na Dolgarrog. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltu â CNC ac RWE Innogy. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae RWE yn ymchwilio i'r mater hwn ac wedi egluro bod Ffrwd Llugwy yng Nghapel Curig wedi'i hadeiladu ym 1930 a bod eu harchwiliad diweddar o asedau sifil wedi nodi gwendid yn y strwythur felly roedd angen cymryd camau rhagofalus a dargyfeirio llif o'r ffrwd yn ystod cyfnodau o law trwm. Mae RWE wedi gweithredu rhaglen o waith adnewyddu wedi'i gynllunio a fydd yn para tair blynedd sy'n gysylltiedig â'r system ffrwd er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau. • Nododd RWE mai'r ffactor y gallant ddylanwadu mwyaf arno o ran llif gormodol yn Ffrwd Llugwy yw gadael i Gronfa Ddŵr Llugwy, y mae Dŵr Cymru yn berchen arni, i orlifo. Fel cronfa ddŵr sy'n cyflenwi dŵr, mae ei lefel yn ddibynnol ar y galw, ac yn ystod cyfnodau gwlyb, mae'r cyflenwad dŵr (glaw) yn llawer uwch na'r galw ac mae'r gronfa ddŵr yn gorlenwi. Byddai dull amgen rhagweithiol o reoli lefel y gronfa ddŵr yn golygu y byddai modd arafu llifogydd. Felly mae RWE mewn trafodaethau cynnar â Dŵr Cymru er mwyn nodi a fyddai modd darparu'r pŵer i fynd ati i drosglwyddo dŵr o Llugwy i Gronfa Ddŵr Cowlyd. • Mae CNC wedi ein hysbysu nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth am y mater hwn ac y dylid cyfeirio ymholiadau at RWE.
<p>65. Cwmpo coed:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pryder bod hyn yn cael effaith negyddol ar lifogydd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn i CNC a Llywodraeth Cymru egluro pa gamau a gymerwyd i asesu effaith cwmpo coed yn nalgylch 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae CNC wedi ein hysbysu bod y ffordd y maen nhw'n rheoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn cael ei archwilio'n annibynnol bob blwyddyn a'i ardystio i safonau rhyngwladol ar gyfer rheoli coedwigoedd cynaliadwy drwy Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas

	<p>afon Conwy ar faint o ddŵr wyneb sy'n mynd i mewn i Gonwy a'i hisafonydd.</p>	<p>Unedig (UKWAS), sy'n cynnwys safonau ar gyfer rheoli dŵr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae CNC wedi ein hysbysu bod yna dystiolaeth gref bod coetiroedd o bob math sy'n cael eu rheoli'n dda, fel y rhai ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru, yn rhan o'r ateb ac nid yn rhan o'r broblem. Mae hyn yn cynnwys planhigfeydd conwydd modern. Yn unol â hynny, mae coed conwydd yn dda iawn am atal glawiad ac mae'r ffordd y mae'r tir yn cael ei reoli yn helpu i arafu llif y dŵr o'r llechweddau i'r dyffrynnoedd gan adael i fwy o ddŵr fwydo i mewn i'r pridd. • Mewn perthynas â Dyffryn Conwy, nododd CNC y dylid cydnabod mai dim ond tua 5% o'r tir sy'n goediog mewn gwirionedd ac mae CNC yn berchen ar lawer llai na hynny. • Er gwaethaf y ffaith y gofynnwyd yn glir i CNC a ydynt wedi cymryd camau i asesu effaith y gwaith torri coed yn ardal dalgylch afon Conwy, fel yng Nghwm Penmachno, rhwng Llanrwst a Betws-y-coed, ac yng Nghrafnant, ni chafwyd ateb clir eto. Fodd bynnag, mae CNC wedi ein hysbysu y byddant yn cynnal ymchwiliad llawn fel rhan o'u hadolygiadau ehangach i Storm Ciara a Storm Dennis.
<p>66. Gwastraff yn yr afonydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cafodd cryn dipyn o weddillion eu casglu yn y storm, megis bagiau bwyd anifeiliaid gwag. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn i awdurdodau perthnasol helpu i sicrhau bod tirlfeddianwyr glannau afonydd yn cymryd camau priodol i gadw unrhyw wastraff draw oddi wrth nentydd/afonydd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae CNC wedi ein hysbysu mai cyfrifoldeb tirlfeddianwyr yw cadw glannau'r afonydd yn glir o unrhyw beth a allai achosi rhwystr a chynyddu perygl llifogydd, naill ai ar eu tir neu i lawr yr afon os yw'n cael ei olchi i ffwrdd. Mae tirlfeddianwyr yn gyfrifol am gynnal y gwely a banciau'r cyrsiau dŵr a'r coed a'r llwyni sy'n tyfu ar y glannau a dylent hefyd glirio unrhyw ysbwriel a charcasau anifeiliaid o'r sianel a'r glannau, hyd yn oed os nad yw wedi dod o'u tir nhw • Mae CBSC wedi anfon llythyrau at holl berchnogion glannau afon er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r

		canlyniadau posibl os nad yw cyrsiau dŵr yn cael eu cynnal a'u cadw.
<p>67. Llanddoged:</p> <ul style="list-style-type: none"> Eglurwyd bod wal wedi dymchwel wrth ymyl afon yn ardal Llanddoged, bod hyn wedi arwain at lifogydd difrifol, a bod CBSC yn gwrthod rhoi blaenoriaeth i drwsio hyn. 	<ul style="list-style-type: none"> Cysylltu â CBSC er mwyn rhoi sylw brys i hyn i leihau'r perygl o lifogydd pellach ger Efail Uchaf, Llanddoged. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae CBSC wedi ein hysbysu bod y wal dan sylw wedi'i blaenoriaethu yn erbyn materion sylweddol a brys eraill yn y sir a chafodd ei thrwsio ar y cyfle cynharaf yn dilyn yr holl waith brys hanfodol a achoswyd gan y storm. Cafodd y wal ei thrwsio ar 18 Mawrth 2020.
<p>68. Afon yn mynd drwy Ysgol Dyffryn Conwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> Pryder nad yw gweddillion/llysty fiant yn cael eu clirio o hyn – hyd yr afon: o uwchlaw'r ysgol i'r fan lle mae'n ymuno â Chonwy. Codwyd pryder arbennig ynghylch y cwlfertau o dan Ffordd Nebo. Honiad na allai contractwr glirio'r cwlfertau ger Maes Mawr gan nad oedd yn gallu cael yr allwedd. 	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn i CBSC weithredu. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae CBSC wedi ein hysbysu mai perchnogion glannau afon sy'n gyfrifol am y rhan i fyny'r afon o Ysgol Dyffryn Conwy ac felly mae pwynt 24 uchod yn berthnasol hefyd. Mae CBSC wedi ein hysbysu bod perchnogaeth ac felly cyfrifoldeb rhannau o'r cwrs dŵr dan sylw yn amrywio. Mae rhan o'r cwrs dŵr o ran uchaf Cae Person i lawr at yr A470 dan gyfrifoldeb y Cyngor. Roedd y cwlfert dan Ffordd Nebo yn glir ar ddydd Sadwrn 8 Chwefror am 9am. Mae gan aelodau staff y Cyngor allwedd i'r clo clwt ar gyfer y cwlfert yn Ffordd Nebo ond nid yw'r Cyngor am roi bywydau mewn perygl yn ystod glaw trwm pan fo'r dŵr yn llifo ar y cyflymder yr oedd ar 9 Chwefror.
<p>69. Dŵr Sefydlog:</p> <ul style="list-style-type: none"> Pryder nad yw dŵr llifogydd i'r dwyrain o'r rheilffordd ym Maenan yn gallu draenio, a bod Tan-y-coed, Maenan, wedi gorlifo. 	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn i Network Rail fanylu ar y gwaith a wnaed ar yr arglawdd rhwng Llanrwst a Maenan yn dilyn y llifogydd fis Mawrth diwethaf, ac am asesiad ynghylch a 	<ul style="list-style-type: none"> Mae Network Rail wedi ein hysbysu eu bod wedi glanhau tua 4000 o lathenni o ffosydd yn 2019 ac yna 2000 o lathenni yn 2020, a bod 10 a mwy o gwlfertau wedi cael eu glanhau dros y cyfnod hwn a chwlfert newydd wedi'i osod. Er gwaethaf yr ymdrech a welwyd gyda'r gwaith ar y ffosydd, mae'n ddibynnol ar amodau'r tir lleol. Mae CNC wedi ein hysbysu bod CBSC yn arwain y gwaith ar Adroddiad Ymchwil i Lifogydd Adran 19, ac mae'n rhaid cynnal ymchwiliadau er mwyn deall beth

	<p>allai hyn fod wedi cael effaith ar ddraenio dŵr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn y cyfarfod llawn yr wythnos diwethaf, egluro pa fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i geisio lleihau effaith llifogydd ar yr A470. • Gofyn i CNC egluro pa gamau fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu eiddo ym Maenan o lifogydd afon Conwy. 	<p>ddigwyddodd cyn y gellir ystyried unrhyw welliannau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae CNC wedi ein hysbysu bod adroddiad ymchwil Adran 19 yn cael ei arwain gan CBSC. Byddant yn disgwyl canlyniad yr adroddiad cyn ystyried a ellir gwneud unrhyw welliannau posibl
<p>70. Capel Garmon:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eglurwyd bod Fferm Hendre Wen wedi cael llifogydd, a bod y dŵr yn dod o'r afon fechan sy'n dod i lawr o Gapel Garmon. Roedd y cwrs dŵr yn arfer cael ei lanhau, ond roedd wedi cael ei adael am gyfnod hir, ac roedd yn llawn gweddillion. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn i CNC ac i CBSC egluro pam nad oedd y nant wedi'i chynnal, ac i ddarparu cynllun clir i gefnogi clirio yn y dyfodol wrth symud ymlaen. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae CNC wedi ein hysbysu o'r canlynol: “Mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn sefyllfaoedd o argyfwng, mae'n rhaid gwneud gwaith cynnal a chadw ar Afon Gallt y Gwg y tu allan i'r tymor silio eogiaid, a nodwyd yn benodol dan Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975. Nid yw Gallt y Gwg yn rhan o raglen arferol dad-siltio/dad-chwynnu Rhanbarthau Draenio Mewnol CNC gan fod ganddo wely graean felly nid yw chwyn yn tyfu arno. Mae'r gwely, fodd bynnag, yn cefnogi tymor silio'r eogiaid ac mae wedi'i gynnwys mewn prosiect pysgodfeydd/cynefinoedd hanesyddol. Mae gwaith i glirio'r graean o'r sianeli yn cael ei wneud ar sail ymatebol. Fe wnaeth CNC y gwaith hwn yn 2012/13. Fe wnaeth y tirlfeddiannwr waith brys i glirio'r sianel yn dilyn llifogydd 26/12/2015. Ym mis Chwefror, 2016, fe wnaeth CNC roi dogfen fanyleb gwaith i'r tirlfeddiannwr, i gynnal gwaith clirio sianeli eu hunain.

		<p>Ym mis Chwefror 2020, bu CNC yn gweithio mewn partneriaeth agos ag Asiantaeth Cefnffyrdd y Gogledd a'r Canolbarth a CBS Conwy i glirio'r sianel a chwlfert yr A470, drwy arfer ein pwerau argyfwng.</p> <p>Gall yr amserlen a'r camau a nodir uchod ddangos bod y sianel wedi'i chynnal a'i chadw dros y ddeng mlynedd ddiwethaf. Wrth symud ymlaen, bydd Asiantaeth Cefnffyrdd y Gogledd a'r Canolbarth yn parhau i archwilio'r cwlfert o leiaf bob 12 mis a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth unwaith eto er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a phan fyddant yn codi."</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae CBSC wedi ein hysbysu bod ymchwiliadau rhagarweiniol yn yr ardal wedi datgelu, oherwydd cyflymder dwys y dŵr, bod llawer iawn o gerrig wedi cael eu cludo i lawr y cwrs dŵr sy'n golygu bod gormodedd wedi cronni dan y bont dan yr A470 gan leihau capasiti. Mae hyn wedi achosi i'r cwrs dŵr i fynd dros y sianel gan achosi llifogydd yn fferm Hendre Wen ac eiddo arall ymhellach i'r de. Mae rhan o'r cwrs dŵr sydd i fyny'r afon yn gwrs dŵr arferol a fyddai'n cael ei gynnal a'i gadw gan berchennog glannau'r afon. Byddai'r cwlfert dan yr A470 yn cael ei gynnal a'i gadw gan NMWTRA ac i lawr yr afon o'r bont y mae'r brif afon a gynhelir gan CNC. Ar adeg y llifogydd, adroddwyd bod NMWTRA a CNC wedi cyrraedd yn gyflym ac wedi tynnu sawl tunnell o ddeunydd o'r cwrs dŵr gan alluogi'r llif i fynd heibio'n ddi-rwystr. Mae'r tirlfeddiannwr, NMWTRA a CNC wedi cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau cynnal a chadw.
<p>71. Partneriaeth Llifogydd Dyffryn Conwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Codwyd pryderon gan gynghorydd CBSC fod gwybodaeth leol wedi ei ganoli 	<ul style="list-style-type: none"> • Edrych i weld y bartneriaeth yn cael ei hailsefydlu, a chydweithredi ad gan yr Ymddiriedolaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae CNC wedi ein hysbysu bod Cyngor Tref Llanrwst eisoes wedi bod mewn cysylltiad i drefnu dyddiad ar gyfer y Grŵp Partneriaeth Llifogydd. Mae CNC yn cefnogi ailsefydlu Grŵp Partneriaeth Llifogydd.

<p>fwyfwy ers sefydlu CNC.</p>	<p>Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, CBSC, CNC, a'r gymuned.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nododd CNC hefyd fod CBSC yn arwain y maes gwaith hwn, a bod CNC wedi cael eu hysbysu bod yr Awdurdod Lleol mewn cysylltiad â'r Cyngor Tref am y mater. Mae CNC wedi ymrwymo i fod yn aelod craidd o unrhyw Grŵp Partneriaeth yn y dyfodol. • Mae APCE yn fwy na bodlon i fod yn rhan o hyn • Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ein hysbysu y byddent yn fodlon cymryd rhan os yw'r bartneriaeth yn cael ei hailsefydlu • Mae CBSC yn awyddus i gymryd rhan mewn fforwm a fydd yn lleihau'r risg o lifogydd yn y gymuned leol
<p>72. Iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pryder nad yw gwaith golchi cemegol wedi digwydd yn dilyn y llifogydd. • Eglurodd un preswlydd ei fod wedi bod yn cael pyliau o banig ers y llifogydd. • Dywedodd preswlydd arall fod anifeiliaid anwes wedi bod yn sâl ers y llifogydd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn i'r awdurdodau perthnasol a ellir gwneud gwaith glanhau cemegol y tu allan i gartrefi pobl. • Gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr egluro pa gymorth a chyngor meddygol y gellir eu darparu i drigolion yr effeithir yn negyddol arnynt. • Gofyn i Lywodraeth Cymru a ellir darparu cymorth ar gyfer ffioedd milfeddygol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ymateb gan ein hysbysu o nifer o bwyntiau pwysig: Dylai unrhyw unigolyn sydd angen cymorth meddygol yn dilyn llifogydd diweddar gysylltu â'u meddyg teulu yn y lle cyntaf. <p>Os bydd digwyddiadau tebyg yn y dyfodol, , bydd yr uned mân anafiadau yng Nghyffordd Llandudno yn gallu helpu gydag unrhyw anafiadau posibl, a gallai Adrannau Argyfwng Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd ymdrin ag unrhyw gleifion sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol neu'n sy'n sâl iawn.</p> <p>Os caiff digwyddiad mawr ei gyhoeddi, dylai cyngor a chymorth iechyd a meddygol gael ei ddarparu drwy'r Drefn Reoli Aur ac Arian aml-asiantaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor iechyd mwy cyffredinol i'r gymuned, ac o'r herwydd, mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud addewid i godi'r mater hwn gyda Fforwm Cymru Gydnerth aml-asiantaeth y Gogledd a phan fyddant yn cynnal adolygiad o'u trefniant cynllunio brys eu hunain
<p>73. Wardeiniaid llifogydd:</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn i awdurdodau a 	<ul style="list-style-type: none"> • Nododd CNC y canlynol:

<ul style="list-style-type: none"> • Mae ymdrech yn cael ei gwneud i recriwtio gwirfoddolwyr yn lleol. • Pryder am ddiogelwch helpu mewn llifddwr. 	<p>sefydliadau perthnasol a oes modd darparu hyfforddiant ac arweiniad i drigolion sy'n byw mewn ardal lle mae perygl o lifogydd, a'r rheini sy'n gwirfoddoli fel wardeiniaid.</p>	<p>“Mae CNC wedi cyfarfod yn flaenorol â Chyngor Tref Llanrwst er mwyn egluro'r rôl y gall wardeiniaid llifogydd gwirfoddol ei gyflawni. Yn dilyn y cyfarfod hwn, ceisiodd Cyngor Tref Llanrwst nodi unigolion o'r gymuned a fyddai'n hoffi gwirfoddoli fel wardeiniaid llifogydd, ond yn anffodus, cawsom ein hysbysu na fu eu hymdrechion yn llwyddiannus.</p> <p>Bydd CNC yn parhau i hyrwyddo ac annog pobl i ymgymryd â rôl gwirfoddoli yn y gymuned, eu cyfeirio at ffynonellau o wybodaeth ddefnyddiol a sefydliadau sy'n gallu eu cofrestru i fod yn wirfoddolwyr a darparu'r hyfforddiant ychwanegol, y cit a'r yswiriant, os ydynt yn dymuno mynd â'r rôl ymhellach.</p> <p>Gallwn helpu i drefnu a chefnogi digwyddiadau rhwydwaith ar gyfer gwirfoddolwyr a byddwn yn parhau i gynghori grwpiau ar y gwaith o gwblhau a phrofi cynlluniau llifogydd cymunedol. Byddwn yn rhannu gwybodaeth am gyllid grant sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi gwaith gwrthsefyll llifogydd.</p> <p>Rydym yn annog grwpiau cymunedol i reoli'r gwaith o greu eu cynlluniau llifogydd lleol eu hunain, rhywbeth sy'n digwydd ar hyd a lled Cymru. Rydym wedi gweld bod y grwpiau hyn yn dueddol o fod yn fwy cynaliadwy os ydynt yn arwain eu hunain, gan ddefnyddio CNC a sefydliadau proffesiynol eraill i gael cyngor ac i gyfeirio materion sydd angen sylw ehangach neu fewnbwn arbenigol.”</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae CNC wedi ein hysbysu bod y broses o gofrestru wardeiniaid gwirfoddoli yn cael ei lywio gan y Grŵp Partneriaeth Llifogydd drwy'r Cyngor Tref, a gall gwirfoddolwyr cymunedol gofrestru eu diddordeb. • Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ein hysbysu y byddent yn croesawu'r cyfle i gydweithio â wardeiniaid llifogydd a'u hyfforddi • Mae CBSC wedi ein hysbysu nad yw hyfforddi a rhoi arweiniad i Wardeiniaid Llifogydd yn rhywbeth y mae'r Cyngor yn ei drefnu ar hyn o
--	--	---

		<p>bryd ond maen nhw'n fodlon cydweithio â NWCREPS a CNC ar y mater hwn gyda'r gymuned.</p> <ul style="list-style-type: none"> Os hoffech chi wirfoddoli fel warden llifogydd, rhowch wybod i mi
<p>74. Nant y Goron, Llanrwst:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cafwyd llifogydd y tu ôl i ystâd Nant y Goron. 	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn i CBSC ymchwilio i'r llifogydd ac egluro pa fesurau sydd ar waith i ddiogelu tai ar ddwy ochr y nant. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae CBSC wedi ein hysbysu bod adran y cwrs dŵr y tu ôl i stad Nant y Goron yn gwrs dŵr arferol ac o'r herwydd, perchennog glannau'r afon sy'n gyfrifol amdano ac felly'r tirlfeddiannwr sy'n gyfrifol am ei drwsio a'i gynnal a'i gadw.
<p>75. Cwm Crafnant:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod y ffordd yng Nghwm Crafnant yn gallu gorlifo'n hawdd mewn un rhan. Mae'r ffordd wedi ei chau oherwydd tirlithriad. Mae Canolfan Sgowtiaid y Gornel, Ffordd Crafnant, Trefriw, wedi gorfod cau oherwydd problemau gyda mynediad. 	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn i CBSC a CNC pa gamau y gellir eu cymryd i wella cryfder ffordd. Gofyn i CBSC a CNC ddarparu amserlen ar gyfer gwaith yn dilyn y tirlithriad, ac i CNC egluro pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i'r posibilrwydd bod datgoedwigo wedi cyfrannu'n sylweddol at y sefyllfa. Gofyn i CBSC a CNC a oes unrhyw drac coedwigaeth y gallai'r Sgowtiaid ei ddefnyddio i ailagor y Ganolfan. 	<ul style="list-style-type: none"> Cyn gynted ag y digwyddodd y tirlithriad, aeth CNC ati ar unwaith i agor trac y goedwig gyferbyn â maes parcio Llyn Crafnant ac yn arwain at Lyn Geirionydd. Fe wnaeth hyn alluogi'r holl breswylwyr a oedd wedi cael eu cau i mewn, yn cynnwys y Ganolfan Sgowtiaid, i gael mynediad i Lanrwst a'r A5. At hynny, fe wnaeth CNC ailraddio trac y goedwig mewn sawl man er mwyn sicrhau mynediad gwell i bob math o gerbydau. Agorodd CNC y trac fel arwydd o ewyllys da ac i helpu preswylwyr a busnesau. Mae CBSC wedi ein hysbysu eu bod, drwy gydweithio â CNC, wedi trwsio'r difrod i'r briffordd gyhoeddus mewn 3 lleoliad yn ystod yr wythnosau'n dilyn stormydd mis Chwefror cyn cyfyngiadau symud Covid, ac wedi ailagor y ffordd i draffig. Mae archwiliadau wedi'u cynnal er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a chywirdeb strwythurol y ffordd a'r manau gerllaw.
<p>76. Geidiau Llanrwst:</p> <ul style="list-style-type: none"> Fe'u cynghorwyd nad oes arian ar gael i helpu'r 	<ul style="list-style-type: none"> Codi'r sefyllfa gyda CBSC a Llywodraeth Cymru. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae CBSC wedi ein hysbysu y gall cyllid fod ar gael drwy CGGC, a'i fod yn werth gwirio hefyd porth Cyllido Cymru yn https://cy.funding.cymru/

<p>ganolfan gymunedol.</p>		<ul style="list-style-type: none"> Mae cymorth posib ar gael drwy'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol petai angen i'r Tywyswyr wneud atgyweiriadau. I gael mynediad at hyn dylid anfon e-bost at CommunityFacilitiesProgHELP@llyw.cymru
<p>77. Gorlifdir Dyffryn Conwy yn cael ei warchod rhag ddŵr llifogydd tra bod rhannau o Lanrwst a Chastell Gwydir dan ddŵr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn i CNC ystyried symud argloddiau llifogydd er mwyn i ddŵr llifogydd allu mynd i dir amaethyddol gradd isel i'r gogledd o Lanrwst, fel yn Nolgarrog. Ceisio cael adolygiad annibynnol. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae CNC wedi ein hysbysu bod y dewis o ehangu'r gorlifdir wedi'i ystyried fel un o ddewisiadau'r cynllun Buddsoddi Cyfalaf, a'u bod yn ystyried cynaliadwyedd tymor hir y gwaith o gynnal amddiffynfeydd ac argloddiau ledled y Gogledd. Mae CNC wedi ein hysbysu eu bod yn dechrau astudiaeth ddichonoldeb eleni o gynaliadwyedd amddiffynfeydd yn Nyffryn Conwy.
<p>78. Cwlfertau newydd y tu ôl i Barc-yr-Eryr:</p> <ul style="list-style-type: none"> Pryder eu bod yn galluogi i ddŵr lifo o'r gorllewin i'r dwyrain. 	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn i Network Rail egluro a oes gatiâu llifogydd ar ochr orllewinol y cwlfertau. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae Network Rail wedi ein hysbysu na all ddŵr symud o'r gorllewin i'r dwyrain oherwydd y ddarpariaeth o falfiau clec llanw ar yr ochr orllewinol sy'n cau'n dynn pan fo lefel y ddŵr yn codi'n wahanredol yn y gorllewin.
<p>79. Trefriw:</p> <ul style="list-style-type: none"> Pryderon bod y pentref yn dal i gael ei dorri i ffwrdd gan y B5106. 	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn i'r awdurdodau perthnasol egluro'r cynllun ar gyfer cael mynediad i drigolion mewn argyfwng, a pha effaith a gafodd y tirlithriad yng Nghwm Crafnant ar hyn. Gweithio gyda CBSC a Llywodraeth Cymru i weld 	<ul style="list-style-type: none"> Yn dilyn y llifogydd a'r tirlithriad, mae CNC wedi ein hysbysu bod y cynllun ar gyfer mynedfa ac allanfa i Drefriw yn cael ei adolygu. O'r herwydd, mae CNC wedi cysylltu â chwmni ymgynghori i adolygu a drafftio cynllun i'w gyflwyno i CBSC a Gwasanaeth Cynllunio ar gyfer Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru er mwyn creu fersiwn derfynol o'r Cynllun Argyfwng. Mae CNC wedi ein hysbysu hefyd bod yr Awdurdod Lleol yn ymchwilio i fynedfa/allanfa fel rhan o ymchwiliad llifogydd Storm Ciara Adran 19 ac y bydd yn cael ei gyflwyno mewn adroddiad. Mae CNC yn cefnogi'r ymchwiliad ac yn cyfrannu at y gwaith. Bydd yr

	<p>sut y gellir gwella'r B5106 er mwyn cael o leiaf un ffordd i mewn ac allan o Drefriw.</p>	<p>adroddiad a lunnir yn cynnig argymhellion. Bydd CBSC yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael wedi iddo gael ei gwblhau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweler y nodiadau ar yr ymateb gan Heddlu'r Gogledd yn adran 10. • Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ein hysbysu eu bod yn gallu cael mynediad i Drefriw drwy'r ffyrdd cefn pan fo llifogydd ar y B5106, ond mae'r ffyrdd yn araf ac yn gul ac felly yn arafu eu hymateb. Byddent yn croesawu camau i amddiffyn y ffordd i mewn i Drefriw ar hyd y B5106. • Mae CBSC wedi ein hysbysu bod adroddiad Adran 19 bron wedi'i gwblhau sydd wedi asesu llwybrau dianc o Drefriw yn ystod llifogydd.
<p>80. Draeniau yn Llanrwst:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynegwyd pryder nad oedd pob un o'r rhain wedi'u clirio cyn y stormydd, a'u bod yn parhau i fod wedi blocio nawr. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn i'r awdurdodau perthnasol ymchwilio i hyn, gan gynnwys ar gyfer Ffordd Banc yr Ysgol, Fyny'r Allt, a Ffordd Abergele, yn Llanrwst. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Dŵr Cymru wedi ein hysbysu nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiad ar y carthffosydd cyhoeddus yn Llanrwst, yn ystod unrhyw stormydd yn 2020. Mae eu tîm rhwydwaith mewn cysylltiad rheolaidd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, tîm yr adran priffyrdd a thimau Amgylcheddol, ac ni chafodd unrhyw faterion eu codi gyda nhw ar adeg y digwyddiadau. O'u trafodaethau gyda'r Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru, maen nhw'n fodlon ar hyn o bryd bod y rhwydwaith dŵr gwastraff yn ddigon mawr ond byddant yn parhau i weithio gyda'r holl bartneriaid er mwyn ceisio lleihau llifogydd yn yr ardal hon. • Mae Dŵr Cymru wedi ein hysbysu bod y tîm lleol, fel mesur rhagofalus oherwydd llifogydd trostir a adroddwyd yn yr ardal, wedi cynnal arolwg llawn o asedau dan lefel y tir yn yr ardal y llynedd gan ddefnyddio teledu cylch cyfyng. Maen nhw wedi glanhau llathenni o garthffosydd er mwyn tynnu deunydd a gludwyd yno yn ystod y storm, mewn ardaloedd o amgylch Ffordd Tan yr Ysgol, y Berllan a Chae Person yn Llanrwst. Os oes cyfeiriadau neu

		<p>leoliadau penodol sydd angen eu harchwilio ymhellach, mae Dŵr Cymru yn fodlon anfon tîm i helpu.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Dŵr Cymru wedi ein hysbysu y byddant yn cynnal arolwg teledu cylch cyfyng o rwydwaith Llanrwst bob 12 mis. Byddant yn gwirio a oes unrhyw ddiffygion a fydd yn lleihau gallu eu carthffosydd. Cynhelir eu harolwg nesaf o'r fath ym mis Mai. • Cwblhaodd y contractwyr yr arolwg teledu cylch cyfyng rhwng 23 - 26 Mawrth 2020 ac yn dilyn adolygiad o'r adroddiad, cadarnhawyd nad oes unrhyw ddiffygion. Fodd bynnag, gwelwyd fod silt yn y garthffos a oedd angen ei dynnu oddi yno. Mae gwaith dad-siltio cyflawn wedi'i gwblhau ac mae'r garthffos yn gweithredu yn ôl ei gapasiti llawn. • Gellir codi unrhyw faterion sy'n berthnasol i Dŵr Cymru ar rif argyfwng eu canolfan alwadau 24 awr: 0800 085 3968. Gellir anfon criw i ymchwilio. • Mae CBSC wedi ein cynghori bod yr holl gyliau ar drefniant cynnal a chadw. Mae gyliau (yn enwedig ar hyd Ffordd Tan yr Ysgol a Pherthi) wedi cael eu clirio'n fwy diweddar oherwydd bod disgwyl glaw trwm. Cawsant eu clirio ar sawl achlysur hefyd yn ystod cyfnod y stormydd.
<p>81. Cynnal a chadw ffosydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pryder nad yw ffosydd yn cael eu cynnal a'u cadw. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn i'r awdurdodau perthnasol a Llywodraeth Cymru roi gwybod pa ystyriaeth y gellir ei rhoi i ailsefydlu'r Bwrdd Ardal Draenio Mewnol ar gyfer Dyffryn Conwy. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae CNC wedi ein hysbysu bod Rhanbarth Ddraenio Mewnol Dyffryn Conwy wedi'i sefydlu ym 1922 a'i fod yn parhau'n weithredol heddiw. Yn dilyn sefydlu CNC yn 2013 ac adolygiad gan Lywodraeth Cymru, daeth CNC yn Ranbarth Draenio Mewnol ar gyfer pob rhanbarth draenio yng Nghymru. Mae pob Rhanbarth Draenio Mewnol yn gweithredu Grŵp Cynghori er mwyn codi pryderon a materion yn ymwneud â'r rhanbarth a'u trafod. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod 2-3 o weithiau bob blwyddyn ac yn cytuno ar flaenoriaethau cynnal a chadw yn y

		Rhanbarth. Cynhaliwyd adolygiad o'r Rhanbarthau Draenio Mewnol ledled Cymru a chyflwynwyd y canlyniad i Lywodraeth Cymru ar ddechrau 2018.
<p>82. Rheoli llifogydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynigiwyd fy mod yn gofyn am swyddog rheoli llifogydd penodol ar gyfer dalgylch Conwy, a bod y rôl yn cael ei chyfuno â swyddogaeth "fforddoliwr" i reoli nentydd a chwlfertau. 	<ul style="list-style-type: none"> Codi'r syniad hwn gyda Llywodraeth Cymru, CBSC, a CNC. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan CNC bwerau caniatol yn unig i gynnal gwaith cynnal a chadw ar y prif afonydd. Caiff y gwaith hwn ei wneud mewn ardaloedd risg uchel pan fo perygl i bobl ac eiddo. Os yw tirlfeddianwyr yn dymuno cyflawni gwaith i glirio cyrsiau dŵr mae'n debygol y bydd angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd arnynt gan CNC ar gyfer prif afon neu gan CBSC ar gyfer cyrsiau dŵr arferol. Mae CNC yn hapus i drafod y broses hon gyda thirlfeddianwyr yn uniongyrchol. Mae CBSC wedi ein hysbysu y dylid nodi mai tirlfeddianwyr sy'n gyfrifol am gynnal a chadw cyrsiau dŵr arferol ac mae CNC yn gyfrifol am gynnal a chadw prif afonydd. Mae CBSC yn rheoli'r ffrydiau a'r cwlfertau y maen nhw'n gyfrifol amdanynt.
<p>83. Bod angen dull dalgylch afon gyfan o newid tirwedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datgarboneiddio yw'r ysgogwr newydd, ac mae hyn yn arwain at drafodaethau mwy dychmygus ynghylch priddoedd amaethyddol, coetiroedd llydanddail, morfeydd heli ac ail-wlychu tirweddau mawn yr ucheldir fel y rhai ar y Migneint. Mae'n bosibl y caiff Dyffryn Conwy ei 	<ul style="list-style-type: none"> Cysylltu ag amgylcheddw'r blaenllaw ar hyn cyn mynd ymhellach. 	<ul style="list-style-type: none"> Ar y gweill

<p>hyrwyddo fel prosiect enghreifftiol a all blethu'r elfennau tirwedd niferus i greu tapestri o reolaeth tir a dŵr integredig a chynaliadwy.</p>		
<p>84. Ffordd yr Orsaf a Bro Helyg, Llanrwst:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cafodd cartrefi a busnesau eu distrywio yn ystod storm Ciara. • Mae angen cymryd camau i helpu i leihau perygl llifogydd Afon Bach eto. • Mae angen gweithredu i helpu i leihau'r perygl i afon Conwy orlifo ger y Tanerdy. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn i'r awdurdodau perthnasol am gynlluniau clir ar sut i ddiogelu eiddo ar y ddwy stryd. • Gofyn i'r awdurdodau perthnasol a Llywodraeth Cymru i helpu i ddarparu drysau llifogydd. • Gofyn am eglurhad ynghylch pwy sy'n gyfrifol am glirio llystyfiant, codi'r amddiffynfa rhag llifogydd ar waelod maes parcio Coop, a cheisio cael asesiad o aber Afon Bach. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae CNC wedi ein hysbysu bod CBSC yn arwain Adroddiad Ymchwil Llifogydd Adran 19 i'r llifogydd. Nodwyd hefyd, yn dilyn yr erydu a ddigwyddodd wedi i Afon Bach ddiodeff llifogydd, gosododd CNC fagiau pwrpasol wedi'u clymu gyda'i gilydd er mwyn amddiffyn y wal oedd wedi'i difrodi cyn y llanw uchel nesaf er mwyn atal rhagor o ddifrod a llifogydd dilynol petai'r amddiffynfa yn methu. Maen nhw wedi ymgysylltu ag ymgynghorydd hefyd i arolygu'r safle a darparu amlinelliad o atebion posibl. • Mae CNC wedi ein hysbysu hefyd bod atgyweiriadau dros dro wedi'u cynnal ar yr arglawdd gyferbyn â'r Tanerdy ar afon Conwy, a'u bod wedi datblygu'r achos busnes ar gyfer cynllunio ac atgyweirio yn y tymor hirach ac ar hyn o bryd maen nhw'n sicrhau cyllid er mwyn bwrw iddi â'r gwaith hwn. • Mae CBSC wedi ein hysbysu mai'r Awdurdod Lleol sy'n berchen ar lan gogleddol Afon Bach gyferbyn â'r Hen Danerdy (The Old Tannery) a chynhaliwyd archwiliad o sianeli glannau'r afon er mwyn cadarnhau bod y dŵr yn llifo'n ddirwystr a bod cyflwr y glannau'n foddhaol yn y lleoliad hwn. • Mae CBSC wedi ein hysbysu bod y coed a osodwyd gyferbyn â Gorsaf Rhif 21 (Jade 2) yn ased yr Awdurdod Lleol sydd bellach yn segur o ganlyniad i adeiladu cynllun lliniaru llifogydd Afon Bach • Mae CBSC wedi ein hysbysu bod adroddiad Adran 19 ar y gweill ar gyfer Llanrwst a bydd rhestr o

		<p>argymhellion a chyfrifoldebau wedi'u cynnwys yn y ddogfen i gydfynd â phob mater a nodir. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd copi o'r adroddiad hwn ar gael.</p> <ul style="list-style-type: none">• Rydw i wrthi'n mynd ar drywydd y gwaith o glirio'r llystyfiant ar hyd rhan o Afon Bach ger Cae Tyddyn, Cae'r Felin a Thros yr Afon
--	--	---